



Datblygu'r Gwasanaeth Tân ac Achub at y dyfodol.

Ymgynghoriad cyhoeddus.

Gwanwyn/Haf 2017

CYNNWYS

Cyflwyniad	3
Ynglŷn â Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru	4
Ynglŷn ag amcanion hirdymor yr Awdurdod	5
Beth sy'n dod nesaf?	6
Ymgynghoriad – cwestiwn 1	7
Ymgynghoriad – cwestiwn 2	10
Ymgynghoriad – cwestiwn 3	11
Sut i gymryd rhan yn yr ymgynghoriad hwn	12
Ffurflen ymateb	13

CYFLWYNIAD

Mae Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru yn cynnal ymarferion ymgynghori rheolaidd, pan fydd yn gwahodd y cyhoedd ac unrhyw un arall â diddordeb i leisio barn ar y gwasanaethau tân ac achub yn yr ardal.

Mewn rhai blynyddoedd, mae'r Awdurdod yn holi ynglŷn â chynigion penodol y mae wedi eu drafftio, ac mewn blynyddoedd eraill mae'n gwahodd barn mwy cyffredinol ynglŷn â datblygu'r gwasanaethau tân ac achub yn yr ardal i'r dyfodol. Cymerir y sylwadau a dderbynnir i ystyriaeth pan fydd yr Awdurdod yn cymryd ei benderfyniadau cynllunio terfynol.

Ers 1996, mae gan yr Awdurdod record ragorol o wella diogelwch cyhoeddus ar gyfer y sawl sy'n byw a gweithio yn ac sy'n ymweld â Gogledd Cymru a rheoli ei adnoddau yn gyfrifol. Fodd bynnag, nid yw'r llwyddiant hwnnw yn ddigonol. Rhaid i'r Awdurdod barhau i geisio gwella ei wasanaethau yn y tymor byr ynghyd ag ystyried lles cenedlaethau pobl yr ardal i'r dyfodol. At hyn, rhaid iddo ystyried y costau – nid oes llawer o bwynt mewn cynllunio gwasanaeth na ellir ei fforddio.

Ar ôl etholiadau'r cyngor sir ym mis Mai 2017, bydd yr awdurdod newydd yn datblygu ei gynlluniau ar gyfer gwasanaethau tân ac achub yng Ngogledd Cymru. Ym mis Mawrth 2017, ymrwymodd yr Awdurdod i ymgynghori'n gyhoeddus ar y camau i'w cymryd yn ystod 2018/19 tuag at gyflawni ei amcanion lles yn y tymor hir. O ran y gyllideb ar gyfer 2018/19, mae'r cyfyngiadau amser sy'n deillio o broses etholiad mis Mai a sefydlu Awdurdod newydd yn golygu y bydd pennu'r gyllideb ar gyfer 2018/19 yn seiliedig ar gostau hysbys ac a ragwelir ar gyfer y flwyddyn honno.

Rydym felly yn gwahodd sylwadau ac awgrymiadau y gall yr Awdurdod eu hystyried wrth i'w aelodau benderfynu ar gyfeiriad strategol y gwasanaeth tân ac achub dros y blynyddoedd i ddod.

Hoffem glywed gan gymaint o bobl ag y bo modd, a hoffem dderbyn eich sylwadau, eich barn a'ch syniadau **erbyn diwedd mis Gorffennaf 2017.**

Rhoddir manylion ar sut i wneud hyn ar dudalen 12. Diolch i chi am gymryd rhan yn yr ymgynghoriad cyhoeddus eleni.

YNGLŶN Â GWASANAETH TAN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

Mae tri Awdurdod Tân ac Achub yng Nghymru. Mae Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru wedi bod yn darparu gwasanaethau tân ac achub yn siroedd Môn, Gwynedd, Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint a Wrecsam ers 1996.

Mae'r Awdurdod yn cynnwys 28 o gynghorwyr sir etholedig, a enwebir gan eu cynghorau i wasanaethu fel aelodau o'r Awdurdod. Yn y swydd hon, disgwylir iddynt weithredu er budd gorau Gogledd Cymru gyfan, ac nid ardal eu siroedd nhw yn unig.

Mae'r Awdurdod yn penderfynu ar lefel y gwasanaethau tân ac achub yng Ngogledd Cymru, ac yn pennu ei gyllideb flynyddol i gyfateb â'r lefel honno o wasanaeth.

Pa wasanaethau y mae Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru yn eu darparu?

Mae gan yr Awdurdod ddyletswyddau cyfreithiol i ddarparu:

- Addysg rhwystro tân a diogelwch cymunedol
- Ymateb "golau glas" i argyfyngau tân ac argyfyngau eraill
- Gorfodi diogelwch tân mewn adeiladau annomestig
- Cynllunio ac ymateb i sefyllfaoedd argyfwng mawr a difrifol

Mae hefyd yn medru gweithio gyda chymunedau eraill i wella bywydau pobl mewn gwahanol ffyrdd. Er enghraifft, yn ddiweddar mae wedi gweithio gyda:

- Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru, yn ymateb i alwadau meddygol sy'n bygwth bywydau ("cyd-ymateb") a hefyd pobl sydd wedi cwmpo yn eu cartref ac, er nad ydynt wedi eu hanafu, sydd angen help i godi;
- Heddlu Gogledd Cymru, yn helpu i chwilio am bobl sydd ar goll.

Faint y mae Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru yn ei gostio i'w redeg?

Rhyw £33 miliwn y flwyddyn – sy'n cyfateb i ryw £47 ar gyfer pob un o drigolion Gogledd Cymru. Daw'r arian hwn gan y chwe chyngor sir yng Ngogledd Cymru sy'n cyfrannu arian i gronfa ganolog a ddefnyddir i ddarparu gwasanaethau tân ac achub ledled yr ardal gyfan. Mae faint mae pob cyngor sir yn ei gyfrannu yn dibynnu ar faint ei boblogaeth – po fwyaf y nifer o bobl sy'n byw yno, po uchaf y cyfraniad gan y sir honno.

YNGLŶN AG AMCANION HIRDYMOR YR AWDURDOD

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn ei gwneud yn ofynnol bod rhai cyfundrefnau yng Nghymru yn mabwysiadu amcanion hirdymor sy'n cyfrannu at Gymru yn cyflawni nodau lles a bennwyd ar lefel genedlaethol gan Lywodraeth Cymru¹.

Ar ddechrau 2017, mabwysiadodd Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru ddau amcan hirdymor:

- **cynorthwyo pobl i rwystro tanau damweiniol mewn cartrefi ac aros yn ddiogel os bydd tân yn digwydd;**
- **gwneud popeth a fedr i sicrhau bod Gogledd Cymru yn medru parhau i ddibynnu ar gael gwasanaethau tân ac achub o'r radd flaenaf (rhwystro ac ymateb i argyfwng) sydd ar gael.**

Cyhoeddodd yr Awdurdod ei Gynllun Gwella a Lles Cyfunol cyntaf² ym mis Mawrth 2017. Mae'r Cynllun hwn ar gyfer 2017/18 yn cyflwyno'r feddylfryd y tu ôl i'r ddau amcan hirdymor hyn ac yn esbonio sut y bydd yr Awdurdod yn cymryd camau i'w cyflawni dros y misoedd i ddod.

Yn amlwg, ni fydd amcanion hirdymor fel hyn yn cael eu cyflawni mewn ychydig o fisoedd, a bydd yr Awdurdod newydd (a ffurfiwyd ar ôl etholiadau cyngor sir mis Mai 2017) eisiau datblygu ei gynlluniau ei hun ar gyfer 2018/19 a thu hwnt.

¹ Mae'r amcanion lles yn cyfeirio at Gymru yn y dyfodol fel lle ffyniannus, cydnerth, iachach, mwy cyfartal ac yn gyfrifol yn fyd-eang, gyda chymunedau cydlynus, diwylliant bywiog ac iaith Gymraeg sy'n ffynnu.

² <http://www.nwales-fireservice.org.uk/media/337608/final-combined-improvement-and-well-being-plan-2017-18-english-with-amended-cover.pdf>


BETH SY’N DOD NESAF?

Beth mae’r Awdurdod eisiau ei wneud yn y tymor hir?

A. Mae Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru eisiau cynorthwyo pobl i rwystro tanau damweiniol yn y cartref ac aros yn ddiogel os bydd tân yn digwydd.

Pam y mae’r Awdurdod eisiau gwneud hynny?

Diolch i strategaeth lwyddiannus diogelwch tân cymunedol, mae llawer llai o danau damweiniol mewn cartrefi yng Ngogledd Cymru y dyddiau hyn er gwaethaf y cynnydd yn y boblogaeth a nifer y tai annedd.



Graff yn dangos y gostyngiad mewn tanau damweiniol mewn tai annedd yng Ngogledd Cymru.

Yn hytrach na gweithredu dim ond pan fydd tân yn digwydd, mae’r gwasanaeth tân ac achub wedi bod yn buddsoddi llawer mwy o amser ac ymdrech yn addysgu ac yn cynorthwyo pobl i’w cadw nhw yn ddiogel trwy rwystro tanau rhag cychwyn yn y lle cyntaf, ac ymateb yn gywir os oes tân.

Sut fydd yr Awdurdod yn gwneud hyn?

Yn 2017/18 bydd y gwasanaeth tân ac achub yn parhau i gyflawni ei raglen gynhwysfawr o weithgareddau rhwystro – gan gynnwys 20,000 o ‘archwiliadau diogel ac iach’ mewn cartrefi – ac amrywiol weithgareddau eraill a ddisgrifir

yng Nghynllun Gwella a Lles Cyfun yr Awdurdod (gweler y ddolen we ar y dudalen flaenorol).

Beth nesaf? Beth ddylai'r Awdurdod ei ystyried, yn eich barn chi?

Mae ymgyngoriadau cyhoeddus yn y gorffennol wedi dangos yn gyson mai ychydig iawn o bobl a fyddai'n dadlau gyda chael rhwystro tanau mewn cartrefi ac anafiadau cysylltiedig fel prif amcan yr Awdurdod. Ond beth yw goblygiadau hyn i'r Awdurdod? Er enghraifft, beth ddylai ei ystyried wrth ddyrannu rhan o'i gyllideb flynyddol i waith rhwystro? A oes adrannau penodol o'r gymuned y dylid canolbwyntio mwy arnynt? Oes yna rywbeth y gallai ei wneud yn wahanol i fod hyd yn oed yn fwy effeithiol yn y dyfodol? Beth fyddai'n ffordd dda o wneud hyn fel amcan hirdymor?

Beth bynnag yw eich barn ar y mater, rhannwch hi gyda ni.

Ymgyngoriad – cwestiwn 1

Beth a fyddai'n helpu'r Awdurdod Tân ac Achub i a) gael gostyngiad pellach yn nifer y tanau damweiniol mewn tai annedd; a/neu b) cynorthwyo cenedlaethau i'r dyfodol i aros yn ddiogel os byddant yn wynebu tân damweiniol yn eu cartref?

Os medrwch gynnwys esboniad yn dweud pam rydych o farn benodol, yna gwnewch hynny er mwyn ein helpu ni i ddeall mwy am y pwynt(iau) rydych yn eu codi.

Beth arall y mae'r Awdurdod eisiau ei wneud yn y tymor hir?

B. Mae Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru eisiau hwyluso gwasanaethau tân ac achub ymatebol, o ansawdd uchel ac wedi eu hintegreiddio'n well fel bod gweithgareddau rhwystro ac ymateb mewn argyfwng yn parhau i fod ar gael pryd a lle mae eu hangen, yn fforddiadwy, yn deg ac ar sail risg.

Pam y mae'r Awdurdod eisiau gwneud hynny?

Y tebygolrwydd yw y bydd poblogaeth y DU yn codi a bydd pobl yn byw yn hirach. Mae hyn yn debygol o arwain at gymhareb uwch o bobl sydd wedi ymddeol o gymharu â phobl mewn oed gwaith³, sy'n golygu y bydd y galw am wasanaethau cyhoeddus (gofal cymdeithasol ac iechyd yn benodol) yn codi, ond bydd yr arian a gynhyrchir i dalu am wasanaethau cyhoeddus yn gostwng.

Mae'r pwysau i dorri costau rhedeg gwasanaethau cyhoeddus eisoes yn fawr, ac felly mae'r cefndir o broffil poblogaeth sy'n newid yn cyflwyno risg gwrioneddol i ansawdd a/neu argaeledd gwasanaethau tân ac achub yng Ngogledd Cymru (a mannau eraill). Mae'r Awdurdod eisoes wedi gostwng ei gostau rhedeg gan nifer o filiynau o bunnau er gwaethaf cynnydd mewn costau na ellir ei osgoi, a yrrir gan ffactorau allanol⁴, ond mae pwysau ariannol yn parhau a rhaid i'r Awdurdod barhau i gynllunio i gynnal ei fforddiadwyedd ei hun.

Hefyd, mae disgwyl cynyddol y bydd gwasanaethau cyhoeddus yn gweithio'n agosach gyda'i gilydd er mwyn bod yn fwy effeithlon, effeithiol ac economaidd a hefyd fel bod lles pobl yn cael y flaenoriaeth dros ba gyfundrefnau a gyflwynodd pa wasanaethau yn draddodiadol.

Mae'n gwneud synnwyr defnyddio holl rannau o'r sector cyhoeddus yn y ffordd mwyaf effeithiol, gan uwch-sgilio staff a rhoi'r adnoddau iddynt i helpu pobl heb orfod galw gwasanaeth gwahanol allan. Mae staff gyda sgiliau lluosog

³ Yn ôl y Swyddfa Ystadegau Gwladol mae 4 o bobl mewn oed gwaith (16-64 oed) am bob person 65+ yn y DU ers o leiaf 1975. Erbyn y flwyddyn 2025, fodd bynnag, ystyrir y bydd y gymhareb yn syrthio i 3 person oed gwaith ar gyfer pob person 65+ oed, ac erbyn 2035, dim ond 2 person oed gwaith am bob person 65+ oed.

⁴ Rhwng 2010/11 a 2017/18 ar ôl cyfnodau maith o rewi cyllidebau a derbyn cynnydd cost na ellir ei osgoi heb gau gorsafoedd tân, tynnu peiriannau tân o'r gwasanaeth neu ddiswyddo diffoddwyr tân yn orfodol, mae'r gyllideb flynyddol wedi cynyddu 4% o £31,772,011 i £33,161,277, yn codi yn ystod y cyfod hwnnw o £46 i £47 fesul pen.


a fedr gyflawni mwy nag un gwasanaeth yn un ffordd o gael gwasanaeth wedi ei gynllunio'n well am bris is.

Sut fydd yn Awdurdod yn gwneud hyn?

Mae dwy agwedd i hyn yr hoffem glywed eich barn arnynt – agwedd cynllunio ariannol ac agwedd arallgyfeirio gwasanaeth.

Cynllunio ariannol

Ar ôl cynnal cyllideb wedi ei rhewi a gostwng costau rhedeg rhwng 2010/11 a 2014/15, ac eto yn 2015/16 a 2016/17, cymeradwyodd yr Awdurdod gynllun ariannol newydd ar gyfer y tair blynedd ganlynol a oedd yn cynyddu'r gyllideb flynyddol 4% yn 2017/18 ac 1.3% arall yn 2018/19.



Fel y dangosir yn y graff uchod, yn sylfaen i'r cynnydd graddol arfaethedig yng nghyllideb flynyddol yr Awdurdod dros dair blynedd ei gynllun ariannol fyddai defnyddio cronfeydd wrth gefn a chadw costau'n isel gyda gostyngiadau yng nghost y gwasanaeth.

Nid ydym yn gwybod eto faint fydd y cynnydd a yrrir gan ffactorau allanol. Nid oes gan yr Awdurdod unrhyw rym i ddylanwadu ar y rhain, ond bydd disgwyl iddo eu hariannu serch hynny. O ganlyniad, bydd yr Awdurdod yn cadw ei gynlluniau gwario yn hyblyg dros y misoedd i ddod fel y gall adweithio pan gymerir penderfyniadau yn genedlaethol a phan fydd gwybodaeth ar gael.

Mater i'r Awdurdod ei benderfynu fydd cyfrannau cymharol a) cyfraniadau uwch gan y cynghorau sir, b) defnyddio cronfeydd wrth gefn ac c) gostyngiadau mewn gwasanaeth.

Yn ei ymgynghoriad cyhoeddus yn 2016, esboniodd yr Awdurdod yr amrywiol opsiynau yr oedd wedi eu hadnabod i sicrhau y byddai ei wasanaethau yn parhau i fod yn fforddiadwy o fewn y gyllideb sydd ar gael tan 2019/20 o leiaf, gan gau 'bwllch ariannu' tybiedig.

Bryd hynny, yr opsiwn a ffafriwyd gan yr Awdurdod i gau'r bwllch ariannu oedd cynyddu cyfraniadau'r cynghorau sir gan £1.4 miliwn o 2017/18, ac yna torri cost y gwasanaeth gan £0.9 miliwn o 2019/20.

Roedd yr Awdurdod yn cydnabod y byddai gostwng costau rhedeg £0.9 miliwn yn cael effaith arwyddocaol ar y Gwasanaeth ac y byddai arbedion o'r maint hwn yn effeithio nifer y diffoddwyr tân gweithredol a gyflogwyd.

Un enghraifft o ble gellid tynnu'r £0.9 miliwn allan o'r gyllideb oedd dileu staff amser cyflawn o un o'r tri peiriant tân yng ngorsaf dân Wrecsam ar y pryd (yr unig un sydd â thri peiriant tân).

Mewn ymateb i gwestiwn ar hyn yn ymgynghoriad cyhoeddus 2016 yr Awdurdod, roedd dros hanner (53.1%) yr ymatebwyr naill ai'n anghytuno'n gryf neu'n anghytuno y byddai hon yn ffordd dda o gyflawni'r arbedion, bron i draean (27.0%) naill ai'n cytuno'n gryf neu'n cytuno a bron i un rhan o bump (19.8%) yn dewis yr opsiwn niwtral ' Nid wyf yn cytuno nac yn anghytuno'.

Gan gydnabod y gwrthwynebiad lleol i'r posibilrwydd o leihau costau yn y modd hwn, penderfynodd yr Awdurdod ym mis Mawrth 2017 beidio â dilyn y trywydd hwn bryd hynny, gan ddewis gadael hyn i aelodau'r Awdurdod newydd ei ystyried ar ôl yr etholiadau lleol ym mis Mai 2017.

Cynyddwyd y cyfraniadau gan gynghorau sir gan £1,275,434 yn 2017/18 – llai'r na'r cynnig gwreiddiol o £1,400,000 – ond defnyddio £414,000 o'r cronfeydd wrth gefn, gan wneud cynnydd cyfan o £1,689,434.

Ymgynghoriad – cwestiwn 2

Wrth benderfynu sut i ariannu'r gwasanaeth tân ac achub, beth ddylai'r Awdurdod newydd ei ystyried wrth benderfynu ar y cydbwysedd rhwng a) cynyddu cyfraniadau ariannol y cynghorau sir, b) defnyddio'r cronfeydd wrth gefn ac c) lleihau rhai o'i wasanaethau?

Os medrwch gynnwys esboniad yn dweud pam rydych o farn benodol, yna gwnewch hynny er mwyn ein helpu ni i ddeall mwy am y pwynt(iau) rydych yn eu codi.

Arallgyfeirio gwasanaeth

Mewn perthynas â'r disgwyliad presennol y bydd sectorau'r gwasanaeth cyhoeddus yn gweithio'n agosach gyda'i gilydd i amddiffyn lles pobl yn fwy effeithiol ac economaidd, holodd yr Awdurdod yn ei ymgynghoriad cyhoeddus yn 2016 os oedd pobl yn meddwl ei fod yn gwneud synnwyr i'r gwasanaeth tân ac achub arallgyfeirio'r hyn y mae'n ei wneud nawr bod nifer y tanau wedi gostwng. Roedd dros hanner y bobl a atebodd y cwestiwn hwn (56.8%) naill ai'n cytuno'n gryf neu'n cytuno y dylai hyn ddigwydd, roedd mwy na chwarter (26.2%) ddim yn cytuno nac yn anghytuno ac roedd y 17% arall yn anghytuno'n gryf neu'n anghytuno.

Ymgynghoriad – cwestiwn 3

Beth yw eich barn ar y gwasanaeth tân ac achub yn cymryd rolau newydd yn y gymuned nawr bod nifer y tanau yn yr ardal wedi gostwng?

Os medrwch gynnwys esboniad yn dweud pam rydych o farn benodol, yna gwnewch hynny er mwyn ein helpu ni i ddeall mwy am y pwynt(iau) rydych yn eu codi.

SUT I GYMRYD RHAN YN YR YMGYNGHORIAD CYHOEDDUS HWN

Meddyliwch am y cwestiynau a godwyd yn y ddogfen hon, ac anfonwch eich barn, sylwadau a syniadau at Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru **cyn 31 Gorffennaf 2017.**

Mae'r cwestiynau rydym yn eu gofyn eleni yn fwriadol yn rhai 'agored' – bydd gan yr Awdurdod newydd (ar ôl etholiadau'r cyngor sir yn 2017) ddiddordeb mewn clywed amrywiol safbwyntiau a barn pan fydd yn dechrau datblygu ei gynlluniau ar gyfer 2018/19 a thu hwnt.

Rydym yn annog unrhyw un sy'n byw neu'n gweithio yng Ngogledd Cymru, sydd â diddordeb mewn sut dylai'r gwasanaethau tân ac achub ddatblygu yn yr ardal i ymateb mewn un o'r ffyrdd a nodir isod. Rydym wedi cynnwys ffurflen ymateb er hwylustod, ond buasem yn falch o dderbyn ymateb ar ffurf llythyr neu ebost pe bai'n well gennych.

Trwy'r post:

Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru
Pencadlys y Gwasanaeth Tân ac Achub
Ffordd Salesbury
Parc Busnes Llanelwy
Llanelwy
Sir Ddinbych, LL17 0JJ

Trwy ebost:

futurefire@nwales-fireservice.org.uk

Cyflwynwch eich sylwadau cyn 31 Gorffennaf 2017

FFURFLEN YMATEB – GWANWYN/HAF 2017

Chi (ar gyfer ymateb gan unigolion preifat)	
Os ydych chi'n byw yn y DU, ym mha sir?	
A ydych yn cael eich cyflogi gan Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru?	YDW/NA

Chi (ar gyfer ymateb gan gyfundrefn)	
Os ydych chi'n ymateb mewn swydd broffesiynol neu ar ran cyfundrefn, nodwch fanylion perthnasol eich swydd/cyfundrefn.	

Os medrwch gynnwys esboniad yn dweud pam rydych o farn benodol, yna gwnewch hynny er mwyn ein helpu ni i ddeall mwy am y pwynt(iau) rydych yn eu codi.

Ymgynghoriad – cwestiwn 1

Beth a fyddai'n helpu'r Awdurdod Tân ac Achub i a) gael gostyngiad pellach yn nifer y tanau damweiniol mewn tai annedd; a/neu b) cynorthwyo cenedlaethau i'r dyfodol i aros yn ddiogel os byddant yn wynebu tân damweiniol yn eu cartref?

Eich ymateb:

Ymgynghoriad – cwestiwn 2

Wrth benderfynu sut i ariannu'r gwasanaeth tân ac achub, beth ddylai'r Awdurdod newydd ei ystyried wrth benderfynu ar y cydbwysedd rhwng a) cynyddu cyfraniadau ariannol y cynghorau sir, b) defnyddio'r cronfeydd wrth gefn ac c) lleihau rhai o'i wasanaethau?

Eich ymateb:

Ymgynghoriad – cwestiwn 3

Beth yw eich barn ar y gwasanaeth tân ac achub yn cymryd rolau newydd yn y gymuned nawr bod nifer y tanau yn yr ardal wedi gostwng?

Eich ymateb:

Anfonwch eich sylwadau cyn 31 Gorffennaf 2017